



Holl Aelodau'r Cynulliad

16 Hydref 2017

Annwyl Aelod,

Mae'n bleser gen i'ch gwahodd i dderbyniad 'Creu Sbarc' ar gyfer Aelodau'r Cynulliad **ddydd Mercher, 15 Tachwedd am 6pm**, yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn, yn ystafelloedd cynadledda C a D yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd.

Bydd y derbyniad yn gyfle i Aelodau ddysgu mwy am uchelgeisiau Creu Sbarc, i gyfarfod â phencampwyr REAP a deall sut y gall pawb 'chwarae ei ran' www.bethespark.wales

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Cymru wedi bod yn gweithio gydag MIT a saith partner rhyngwladol arall ar y Rhaglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP) i symbylu ein hecosystem entrepreneuriaidd. Yr hyn sy'n sylfaenol i REAP yw cyfraniad y pum prif grŵp rhanddeiliaid: **Ilywodraeth, busnes, academia, cyfalaf risg a'r gymuned entrepreneuriaid** i symbylu'r economi a chreu swyddi.

O dan Gadeiryddiaeth Simon Gibson, Pennaeth Wesley Clover, mae tîm o Bencampwyr amlddisgyblaethol wedi bod yn datblygu gwaith REAP i ddilyn trywydd 'Creu Sbarc'. Mae'r Pencampwyr yn gynrychiolwyr o bob grŵp rhanddeiliaid <https://creusbarc.cymru/cyfarfod-y-tim>

Maen nhw am wneud entrepreneuriaeth sy'n cael ei sbarduno gan arloesi yn flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer yr holl randdeiliaid, hynny er mwyn creu mudiad sy'n cefnogi mwy o gwmnïau brodorol sy'n creu cyfoeth. Y prif egwyddorion yw **symlrwydd, gwelededd a chysylltedd**. Wrth ei lansio ar 28 Mehefin 2017, daeth 300 o arweinwyr yn cynrychioli'r pum grŵp rhanddeiliaid ynghyd. Y nod oedd meithrin cysylltiadau ar draws eu rhwydweithiau a meysydd dylanwad a gwnaed rhagor na 230 o addewidion i sbarduno llwyddiant.

Trwy Creu Sbarc, bydd gennym gyfle unigryw i ymwreiddio diwylliant sy'n eiddo i bawb ac sy'n cael ei gynnal gan bawb. I lwyddo, rhaid harneisio arbenigeddau a dylanwad pawb er mwyn inni allu troi'r weledigaeth bwerus yn rhywbeth gweladwy sy'n addas ar gyfer heddiw, yfory a chenedlaethau'r dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyma ddechrau taith gyffrous i Gymru ac rydyn ni'n disgwyl ymlaen at eich croesawu ar 15 Tachwedd i Greu Sbarc.

A fydddech cystal â rhoi gwybod i Ashley Davies Ashley.Davies41@gov.wales erbyn 27 Hydref i gadarnhau'ch bod yn gallu dod.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

CREU SBARC

Sbarduno Entrepreneuriaeth
a ysgogir gan Arloesi ar
draws Cymru

15 Tachwedd 2017 6:00pm – 7:30pm
Ystafelloedd Cynadledda C&D, Ty Hywel, Bae
Caerdydd

CREU SBARC – Creu Anghenraid Cenedlaethol

6.00pm Croeso - CREU SBARC

6.05pm Anerchiad Agoriadol – Ken Skates,
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith

6.15pm **Anghenraid Cenedlaethol** – Simon Gibson,
Cadeirydd Panel CREU SBARC

6.25pm **Neges gan** Bill Aulet, MIT ac Awdur
‘Disciplined Entrepreneurship’

6.30pm Sesiwn Holi ac Ateb

6.45pm Galw am Gamau Gweithredu – CREU SBARC –
Gwneud adduned

6.50pm Derbyniad a Chyfle i Rwydweithio

7:30pm Cloi